Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WCVA
CGGC

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Prif Grant Gwirfoddoli Cymru 2025-28
Dyfarniadau Cylch 1

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Dyfarniad grant
Age Cymru Dyfed	Mae Age Cymru Dyfed yn chwyldroi gwirfoddoli drwy rymuso Rheolwr Gwirfoddolwyr i gydlynu gwirfoddolwyr cymunedol dynamig sy'n rhoi sylw i anghenion nas ddiwallwyd y tu hwnt i fframweithiau gwasanaeth traddodiadol. Gan gydnabod y dirywiad mewn gwirfoddoli traddodiadol, rydym yn ail-ddychmygu rolau i ysbrydoli ac ysgogi unigolion, gan wneud gwirfoddoli yn gyfle arloesol, deniadol a gwerth chweil i greu effaith wirioneddol.	£55,941.45
Canolfan Gymunedol Bridges / Bridges Community Centre	Bydd Bridges VIP yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol yn Sir Fynwy, ac yn cynyddu nifer y cyfleoedd i wirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol. Bydd Bridges VIP hefyd yn gweld Canolfan Bridges yn mynd ati i gyflawni achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV) er mwyn gwella ein cefnogaeth dros wirfoddoli yn Sir Fynwy.	£60,000.00
Canolfan Glowyr Caerffili i'r Gymuned / Caerphilly Miners Centre for the Community	Bydd Canolfan Glowyr Caerffili yn cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol, gan leihau'r rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra, sesiynau lles ac allgymorth cymunedol i ddenu cyfranogwyr amrywiol. Bydd gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau, hyder a chefnogaeth wrth gyfrannu at amgylchedd bywiog, croesawgar sy'n adlewyrchu ac yn rhoi budd i'r gymuned ehangach.	£60,000.00
Cegin y Bobl	Creu rhaglen wirfoddoli llawn effaith yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i hymwreiddio yn natblygiad Cegin y Bobl. Bydd gwirfoddolwyr yn cefnogi gwaith addysg bwyd trawsnewidiol, ymarferol gan ennill sgiliau a phrofiad trosglwyddadwy gwerthfawr, a gwella'u hyder a'u llesiant. Bydd gan Cegin y Bobl systemau ar waith i gefnogi gwirfoddolwyr, gan gynnwys pobl ifanc.	£57,190.00
Celf O Gwmpas	Cyfleoedd gwirfoddoli gwych sy'n eich helpu i ddod yn rhan o'r gymuned, dysgu i gysylltu a mwynhau. Gwirfoddoli – Eich helpu chi i dyfu, ein helpu ni i dyfu	£28,620.00

Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych / Citizens Advice Denbighshire	Bydd Dyfodol Gwirfoddoli yn recriwtio Cydgysylltydd Ymgysylltu â'r Gymuned i ddatblygu ac ehangu gwirfoddoli cynhwysol. Bydd y prosiect yn helpu i chwalu'r rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigidol ac i ennill achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Trwy hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u teilwra, bydd y prosiect yn gwella profiadau gwirfoddolwyr ac yn hyrwyddo amrywiaeth er mwyn cryfhau llesiant cymunedol.	£57,284.00
Mind Conwy / Conwy Mind	Mae Growing Minds yn brosiect newydd cyffrous sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg, tymor byr. Mae'n ffordd hwyl o gwrdd â phobl newydd ac ymgymryd â heriau go iawn. Helpu pobl ifanc o bob cefndir i adeiladu sgiliau ar gyfer dyfodol mwy disglair.	£60,000.00
Ffotogallery Cymru Cyf / Ffotogallery Wales Ltd	Mae gan ffotograffiaeth y pŵer i effeithio ar newid cymdeithasol a'i adlewyrchu. Trwy gyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon a'r seilwaith i greu'r cyfleoedd ystyrlon hynny, bydd Ffotogallery yn chwarae rhan mewn creu Cymru â diwylliant bywiog.	£40,952.40
Cwmni Buddiannau Cymunedol Gwydnwch Cymunedol Ffynnon / Ffynnon community resilience CIC	Bydd Resilient Roots yn gwella hygyrchedd ac yn cynyddu'r amrywiaeth ymhlith gwirfoddolwyr. Bydd y prosiect yn grymuso gwirfoddolwyr drwy hyfforddiant ac yn creu cysylltiadau gwell rhwng grwpiau gwirfoddoli lleol. Byddwn yn codi statws gwirfoddolwyr, yn dathlu eu cyflawniadau ac yn gwella rhaglenni gwobrwyo. Bydd y prosiect hwn yn sefydlu systemau sy'n galluogi gwirfoddolwyr i gysylltu a ffynnu.	£60,000.00
Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch Cyfyngedig / Gilfach Goch Community Association Limited	Mae 'Volunteers in Partnership' i bobl o bob oed, cefndir a gallu. Rydym yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol, gan gynnwys rolau wedi'u teilwra i anghenion, diddordebau a galluoedd y gwirfoddolwr. Rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn gwirfoddolwyr, cynnig hyfforddiant a chefnogaeth barhaus mewn amgylchedd diogel a chroesawgar.	£60,000.00
Pafiliwn Grange / Grange Pavilion	Bydd Pafiliwn Grange yn lansio rhaglen wirfoddoli wedi'i chyd-gynhyrchu a fydd yn hwyluso gweithgareddau a redir gan wirfoddolwyr. Bydd y rhaglen yn mynd i'r afael â 4 blaenoriaeth a nodwyd yn y gymuned ('gwyrdd a glân', 'iechyd a lles', 'swyddi a sgiliau' a'r 'Gymraeg') trwy gynnig lle, cefnogaeth a hyfforddiant. Bydd cyfleoedd ystyrlon i 40 o wirfoddolwyr yn arwain at adeiladu capasiti a datblygiad cymunedol cynaliadwy a hirdymor.	£59,756.41

Heol Chware Rôl TA Role Play Lane	Bydd ein prosiect yn ehangu cyfleoedd gwirfoddoli ymhellach drwy gynnig hyfforddiant, cymwysterau, credydau Time Tempo a chymorth ariannol ar gyfer teithio a bwyd. Rydym yn canolbwyntio ar rymuso unigolion niwroamrywiol, y rheini ag anableddau ac unrhyw un sydd eisiau tyfu drwy gysylltiad cymunedol cynhwysol a gwerth chweil.	£51,609.82
Hope St Mellons (Here for Good Collective)	Bydd Cynefin i Bawb yn adeiladu ar ein sylfeini a'n hethos fel mudiad datblygu cymunedol â gwreiddiau lleol a arweinir gan wirfoddolwyr a'i seilio ar asedau trwy wella pob agwedd ar gefnogaeth gwirfoddolwyr yn Hope St Mellons. Ein nod, trwy hyn, yw adeiladu cymuned o wirfoddolwyr sy'n adlewyrchu bywiogrwydd ac amrywiaeth ein cymuned leol.	£59,998.00
Cwmni Buddiannau Cymunedol Inclusability / Inclusability CIC	Mae'r Rhaglen 'Emowered Volunteers' yn meithrin cynhwysiant drwy recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Trwy weithdai, mentora a chyfleoedd arwain, mae'r prosiect yn paratoi gwirfoddolwyr â'r sgiliau i gefnogi digwyddiadau hygyrch i deuluoedd ag anghenion ychwanegol. Mae'n dathlu cyfraniadau, yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn adeiladu rhwydwaith gwirfoddoli cynaliadwy a yrrir gan y gymuned.	£30,560.00
KIRAN Cymru (Y Rhwydwaith Perthnasau Rhyng-gymunedol ac Ymwybyddiaeth seiliedig ar Wybodaeth). KIRAN Cymru (The Knowledge-based Intercommunity Relationship and Awareness Network)	Nod prosiect 'Onward Together' KIRAN Cymru yw cael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall pob rhan o'r gymuned gymryd rhan mewn cyfleoedd ystyrlon i wirfoddolwyr. Trwy wella prosesau recriwtio, hyfforddi a chydnabod, mae'r prosiect yn meithrin tegwch, yn grymuso gwirfoddolwyr ac yn cryfhau cysylltiadau cymunedol i gael effaith gynaliadwy.	£54,240.00
Sefydliad Glowyr Llanhiledd Cyf / Llanhilleth Miners Institute Ltd.	Mae'r Prosiect Cyfoethogi Ieuenctid (YEP) yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar draws Blaenau Gwent sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli i ymgysylltu â'r gymuned a'i chefnogi, datblygu sgiliau a hyder, mentora pobl ifanc a chynllunio a chefnogi digwyddiadau cymunedol. Gwneir hyn mewn amgylchedd sy'n cefnogi cymheiriaid i gefnogi eu hanghenion a'u dymuniadau.	£60,000.00

Hwylio Treftadaeth y Fenai / Menai Straits Heritage Sailing	I gyflogi Cydgysylltydd Gwirfoddolwyr i ddatblygu dull cydweithredol a chydlynol o gefnogi Rhaglen Wirfoddoli amrywiol. I gynyddu ymgysylltiad pob grŵp oedran â gwirfoddoli, yn enwedig ymhlith y rheini a allai wynebu rhwystrau i wirfoddoli. Cyflawni arferion gorau mewn gwirfoddoli gan gynnig profiad gwirfoddoli cynhwysol, cefnogol o ansawdd uchel.	£43,845.60
Mess Up The Mess Theatre Company LTD	Bydd y prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant deniadol o ansawdd uchel i bobl ifanc yn Rhydaman a Dyffryn Aman fel arweinwyr cymheiriaid a gwirfoddolwyr technegol. Bydd yn gwella ac yn cyfoethogi eu profiadau drwy gydnabod y profiadau a'r dysgu a geir yn well a thrwy weithio tuag at y safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	£54,309.28
Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales	Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn trawsnewid ei gwasanaeth gwirfoddoli drwy sefydlu rhaglen hyfforddi sy'n grymuso ein gwirfoddolwyr presennol i fod yn fentoriaid un-i-un ar gyfer gwirfoddolwyr eraill sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan yn ein rhaglen wirfoddoli.	£60,000.00
Cwmni Buddiannau Cymunedol Raspberry Creatives Community Events / Raspberry Creatives Community Events CIC	Mudiad ym Mhort Talbot a arweinir gan y gymuned yw CBC Raspberry Creatives, sy'n cefnogi unigolion sy'n wynebu rhwystrau fel heriau iechyd meddwl, anableddau a thlodi. Rydym yn cynnig mannau cynhwysol, gweithgareddau creadigol a gwasanaethau allgymorth sy'n hyrwyddo llesiant, yn adeiladu cysylltiadau ac yn grymuso cymunedau. Ein cenhadaeth yw meithrin gwydnwch, cyfleoedd a chynhwysiant i bawb.	£57,000.00
Sefydliad Sea Watch / Sea Watch Foundation	Mae Sea Watchers Môn yn trawsnewid sut mae Sefydliad Sea Watch yn rheoli gwirfoddolwyr ar Ynys Môn drwy wneud y daith wirfoddoli yn ffurfiol. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi, eu goruchwylio a'u cefnogi drwy ein rhaglen i gefnogi llesiant, gan arwain at rwydwaith cryfach o wirfoddolwyr hyderus ac effeithiol fel prosiect peilot ar gyfer ein rhwydwaith gwirfoddolwyr cenedlaethol.	£59,550.00
Cwmni Buddiannau Cymunedol Shining Stars Cardiff / Shining Stars Cardiff CIC	Mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo menywod ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd i wirfoddoli yn y diwydiant gofal plant, gan adeiladu sgiliau, hyder a phrofiad wrth gyfrannu at ddatblygiad plentyndod cynnar. Trwy gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra, cael gwared â rhwystrau a hyrwyddo cynhwysiant, bydd y fenter hon yn cryfhau cydlyniant cymunedol, gwella llesiant ac yn dathlu amrywiaeth diwylliannol.	£56,039.51

Ymddiriedolaeth St Giles / St Giles Trust	Mae ein prosiect yn chwalu'r rhwystrau ac yn ehangu mynediad menywod anhraddodiadol sy'n gwirfoddoli yng Ngogledd Cymru at wirfoddoli o ansawdd uchel. Trwy wella prosesau, cryfhau partneriaethau a chreu cyfleoedd cynhwysol, byddwn yn cynyddu ymgysylltiad gwirfoddolwyr, yn gwella ein gallu i gadw gwirfoddolwyr ac yn adeiladu rhwydweithiau gwirfoddoli cymunedol mwy cysylltiedig.	£58,800.00
Y Gymdeithas Strôc / Stroke Association	Bydd Rheolwr Gwirfoddolwyr newydd yn gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a phartneriaid gofal iechyd i adeiladu cymuned cynaliadwy o wirfoddolwyr strôc ym Mhowys, Ceredigion a de Gwynedd. Bydd gwirfoddolwyr yn teimlo wedi'u grymuso i ddefnyddio eu sgiliau/profiad i gynnig cymorth lleol, gan hybu ymdrechion y Llywodraeth i drawsnewid gwasanaethau strôc ar gyfer Cymru iach, cydlynus.	£51,332.00
Sue Ryder	Bydd ein prosiect yn galluogi Sue Ryder i gynhyrchu fersiwn Gymraeg o'n Llyfryn Cynefino Gwirfoddolwyr Manwerthu a'n Llyfryn Cynefino Gwneud Iawn â'r Gymuned er mwyn sicrhau y gall ein gwirfoddolwyr Cymraeg ddarllen ein deunyddiau cynefino gwirfoddolwyr yn Gymraeg a dod yn gwbl wybodus am Sue Rider a'u rôl.	£6,883.00
Cynllun Mentora Plws y Bridge / The Bridge Mentoring Plus Scheme	Mae'r prosiect hwn yn cyfoethogi cyfleoedd gwirfoddoli trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau i unigolion ag anghenion ychwanegol a'r rheini o gymunedau difreintiedig. Trwy leoliadau wedi'u teilwra, cymorth un-i-un, hyfforddiant sgiliau ac ymgysylltiad cymunedol, mae'n meithrin datblygiad personol, cynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddoli hirdymor, gan rymuso cyfranogwyr a hyrwyddo cymuned fywiog, gydlynol a chyfartal ym Mhen-y-bont ar Ogwr.	£53,424.00
Canolfan yr Amgylchedd / The Environment Centre	Chwalu rhwystrau a rhoi cymorth i fyfyrwyr a cheiswyr lloches ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, magu eu hyder a bod yn rhan weithredol o'r gymuned leol trwy gyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd rheolaidd ac ymarferol â'r ymgyrchoedd Caffi Drwsio a Man Gwyrdd Cymunedol yn Abertawe.	£47,830.75
Elusen Ambiwlans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance Charity	Bydd Ambiwlans Awyr Cymru yn cyflawni prosiect gwirfoddoli arloesol yng ngogledd Cymru i wella profiad gwirfoddolwyr ac ailwampio'r arferion Rheoli Gwirfoddolwyr cyfredol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar gyfathrebu ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr, rhoi cymorth, cyfleoedd hyfforddi staff ac yn cynnig rolau gwirfoddoli hyblyg newydd gan	£56,000.00

	ddefnyddio technoleg ap digidol.	
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru / Welsh Centre for International Affairs	Rhaglen wirfoddoli gynaliadwy a dynamig yw Cyswllt Gweithredu ar yr Hinsawdd sy'n helpu i gael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli i bobl ifanc. Mae'n meithrin cydweithrediad ar draws ysgolion, cymunedau a mudiadau, gan greu cymuned ddengar o wirfoddolwyr sy'n frwd am gynaliadwyedd a dyfodol y blaned.	£56,957.64
Young Muslim & Community Organisation	Bydd ein prosiect yn recriwtio, yn cefnogi ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr i ddarparu gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau rhyngbersonol, yn gwella llesiant cymunedol ac yn meithrin cynhwysiant. Ein nod yw grymuso unigolion o gefndiroedd ethnig amrywiol, gan ganolbwyntio ar fenywod a phobl ifanc, gan hyrwyddo canlyniadau gwell a chyfrannu at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.	£25,317.50